

Cyfeiriadur Ceredigion Oed Gyfeillgar



Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



Cysylltu Ceredigion
Gofalwyr a Chymorth Cymunedol
Connecting Ceredigion
Carers and Community Support

Rhagair

Croeso i'r trydydd fersiwn o Gyfeiriadur Ceredigion Oed Gyfeillgar. Mae'n llawn gwasanaethau defnyddiol a gwybodaeth gyffredinol i bobl sy'n byw yng Ngheredigion.

Mae Ceredigion Oed Gyfeillgar yn fenter a arweinir gan y gymuned. Mae hyn yn golygu y gallwn helpu oedolion hŷn i gadw'n iach ac yn egniol a chryfhau cysylltiadau cymunedol gyda'n gilydd, drwy gynnwys oedolion hŷn mewn amrywiol weithgareddau.

Cysylltwch â Thîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol i fynegi eich diddordeb, dysgu mwy am fod yn Gynrychiolydd Dinasyddion a dod o hyd i eraill sydd eisoes yn cymryd rhan.

Gwefan: www.ceredigion.gov.uk/oedgyfeillgar

Ffôn: 01545 574200

E-bost: clic@ceredigion.gov.uk

Cynnwys

Trafnidiaeth	3
Tai	8
Cyfranogiad Cymdeithasol	16
Parch a Chynhwysiant Cymdeithasol	27
Cyfranogiad Dinesig a Chyflogaeth	32
Cyfathrebu a Gwybodaeth	37
Cymorth Cymunedol a Gwasanaethau Iechyd	40
Mannau Awyr Agored ac Adeiladau	49
Rhifau Cyswllt Argyfwng	52

Trafnidiaeth

Gwnewch gais am Fathodyn Glas

Mae Cynllun y Bathodyn Glas yn cynnig consesiynau parcio i unigolion ag anableddau, anawsterau cerdded difrifol, neu amhariad gwybyddol dwys. Mae Bathodynnau Glas ar gyfer gyrwyr a theithwyr, sy'n rhoi'r gallu i chi barcio'n agosach at eich cyrchfan.

I wneud cais am Fathodyn Glas cysylltwch â Chyngor Ceredigion yn uniongyrchol neu llenwch y ffurflen ar-lein.

Ffôn: 01545 570881

E-bost: clic@ceredigion.gov.uk

Ffurflen ar-lein: www.gov.uk/apply-blue-badge

Os ydych chi'n cael trafferth llenwi'r ffurflen gais, cysylltwch â'r Cysylltwyr Cymunedol a fydd yn medru eich helpu.

Ffôn: 01545 574200

E-bost: cysylltu@ceredigion.gov.uk

Cynllun Waled Oren

Mae'r Waled Oren ar gyfer unrhyw un a allai ei chael hi'n anodd cyfathrebu eu hanghenion wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ac a hoffai gael cymorth i gyfathrebu â staff wrth deithio ar fws neu drên. Mae wedi'i chynllunio'n arbennig ar gyfer teithwyr ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth. Fodd bynnag, gall unrhyw un ag anabledd cudd ei defnyddio a allai fod yn hoffi cyfathrebu â staff heb ddefnyddio geiriau.

Ffôn: 03333 211 202

Gwefan: www.trc.cymru

Beicio i'r Gwaith

Mae Beicio i'r Gwaith yn gynllun aberthu cyflog sy'n rhoi mynediad hawdd at y gyllideb er mwyn cael offer beicio newydd. Hwylusir y fenter hon gan gyflogwyr sy'n cymryd rhan, sy'n eich galluogi i osgoi talu trethi neu yswiriant gwladol ar y cynhyrchion hyn.

Ffôn: 0345 504 6444

E-bost: cycle2.work@halfords.co.uk

Gwefan: www.cycle2work.info

Motability

Mae cynllun Motability yn cynnig ffordd fforddiadwy i bobl anabl brydlesu car newydd, cerbyd hygyrch i gadeiriau olwyn, sgwter, neu gadair olwyn â phŵer yn gyfnewid am lwfans symudedd cymwys. Mae angen bodloni rhai meini prawf; gweler gwefan Motability am ragor o wybodaeth.

Ffôn: 0300 456 4566

Gwefan: www.motability.co.uk

Pas Bws

Os ydych yn 60 oed a throsodd neu'n bodloni meini prawf cymhwysra anabled y Llywodraeth, gallwch deithio am ddim ar y rhan fwyaf o wasanaethau bysiau yng Nghymru a'r gororau a theithio am bris rhatach neu deithio am ddim ar lawer o wasanaethau trên.

Gwnewch gais ar-lein neu cysylltwch â Thrafnidiaeth Cymru am gopi papur.

Gwefan: www.llyw.cymru/gwnewch-gais-am-bas-bws

Ffôn: 03003 034 240

E-bost: cardiauteithio@tfw.cymru

Amserlenni Bysiau

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am amserlenni bysiau yng Ngheredigion, gallwch ymweld â gwefan Traveline Cymru i gynllunio eich taith.

Gwefan: www.cymraeg.traveline.cymru

Ffôn: 0800 464 0000

Cerdyn Rheilffordd Hŷn

Os ydych yn 60 oed a throsodd, gallwch wneud cais am Gerdyn Rheilffordd Hŷn am £35 y flwyddyn i gael 1/3 oddi ar deithiau trên. Gallwch brynu ar-lein neu gan ein staff mewn Swyddfa Docynnau mewn gorsaf drenau.

Gwefan: www.senior-railcard.co.uk

Cerdyn Rheilffordd Pobl Anabl

Os ydych yn anabl neu os oes gennych gyflwr meddygol cynyddol, rydych yn gymwys i gael Cerdyn Rheilffordd Pobl Anabl am £20 y flwyddyn i gael 1/3 oddi ar deithiau trên. Gallwch brynu ar-lein neu gasglu ffurflen i'w llenwi o Swyddfa Docynnau gorsaf drenau.

Gwefan: www.disabledpersons-railcard.co.uk

Bws y Ddraig Werdd

Gall Bws y Ddraig Werdd ddarparu nifer o gerbydau sy'n gwbl hygyrch i ddefnyddwyr anabl, ar draws De Ceredigion.

Os oes gennych gwestiynau am y gwasanaethau y maent yn eu cynnig, ffoniwch a gadewch neges gyda'ch enw, rhif a'r gwasanaeth sydd ei angen arnoch.

Ffôn: 01239 698506

E-bost: admin@greendragonbus.co.uk

Trafnidiaeth Gymunedol Dolen Teifi

Mae Dolen Teifi yn sefydliad nid-er-elw sy'n darparu trafndiaeth fforddiadwy a hygyrch i unigolion, sefydliadau a grwpiau yng Ngheredigion.

Ffôn: 01559 362403

E-bost: info@dolenteifi.org.uk

Gwefan: www.dolenteifi.org.uk

Trafnidiaeth i'r Ysbyty

Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn darparu Gwasanaeth Cludo Cleifion Di-frys i gleifion ledled Cymru sydd, am resymau meddygol, yn methu â gwneud eu ffordd eu hunain i apwyntiadau ysbyty ac yn ôl. Fel arfer mae angen o leiaf 48 awr o rybudd arnynt cyn taith.

Ffôn: 0300 1232 303

Gwefan: <https://biphdd.gig.cymru/gwybodaeth-i-gleifion/cludiant-cleifion/>

Ceir Cefn Gwlad

Cynllun trafndiaeth wirfoddol yw Ceir Gwledig a gydlynir gan y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol (GVB) ac a ariennir gan Gyngor Sir Ceredigion. Mae'n darparu trafndiaeth i drigolion Ceredigion o unrhyw oedran nad oes ganddynt fynediad at drafndiaeth arall. Yn ddelfrydol, dylid archebu teithiau o leiaf 10 diwrnod ymlaen llaw, ac maent ar gyfer teithiau hanfodol yn unig. Sylwch mai dim ond un daith yr wythnos y gall teithwyr ei gwneud gyda Cheir Gwledig, ac eithrio mewn argyfyngau a awdurdodwyd gan Gydlynnydd y Cynllun.

Ffôn: 07812 485809

Ebost: robert.evans@royalvoluntaryservice.org.uk

Cerbydau sy'n Hygyrch i Gadeiriau Olwyn

Isod mae rhestr o gerbydau dynodedig hygyrch i gadeiriau olwyn a drwyddedir gan Gyngor Sir Ceredigion.

I archebu un o'r tacsis hyn, ffoniwch nhw ar y rhif isod a rhowch wybod iddynt am unrhyw ofynion arbennig sydd gennych.

Fastline Cabs Limited	Llanbed	07748 586848
Teifi Taxis Ltd	Llanbed	07999 567777
7s/MC Taxi	Aberystwyth	01970 627777
Ow's Cabs	Aberystwyth	07807 298440
TAR Cars	Cei Newydd	01545 560688
Pasha's Cabs	Tregaron	07475 618618
Lewis Taxis Cyf	Llanrhystud	01974 202495
HJ Taxis Ltd	Aberteifi	01239 612190

Tai

Opsiynau Tai Cyngor Ceredigion

Mae Cyngor Ceredigion yn cynnig gwybodaeth am y gwahanol opsiynau o ran tai sydd ar gael yng Ngheredigion. Ei nod yw galluogi pobl sy'n chwilio am gartref i wneud dewisiadau gwybodus am yr opsiynau mwyaf addas ar eu cyfer.

Gwefan: www.ceredigionhousingoptions.cymru

Ffôn: 01545 574123

E-bost: cofrestrtai@ceredigion.gov.uk

Ymholiadau Treth y Cyngor/Budd-dal Tai: 01970 633253

Barcud

Cymdeithas dai nid-er-elw yw Barcud sy'n darparu tai fforddiadwy yng Ngheredigion. Drwy gofrestru gyda Chofrestr Opsiynau Tai Cyngor Ceredigion, gallwch gael eich ystyried ar gyfer tŷ Barcud.

Ffurflen Ar-lein: www.barcud.cymru/contact-us/?lang=cy

Ffôn: 0300 111 3030

E-bost: post@barcud.cymru

Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynni cyngor a gwybodaeth ar sut i amddiffyn eich cartref. Maent hefyd yn cynnig gwiriadau diogelwch tân (Ymweliad Diogel ac Iach) yn rhad ac am ddim i eiddo domestig.

Ffôn: 0800 169 1234

Gwefan: www.mawwfire.gov.uk

Cymru Gynnes

Mae'r prosiect Cartref Iach, Pobl Iach yn cefnogi pobl i gael cartrefi mwy cynnes, mwy diogel a iachach.

- **Ynni:** cymorth a chynghor i ddeall biliau ynni, mesuryddion clyfar, arbedion a disgowntiau
- **Dŵr:** gwybodaeth, cynghor a chymorth ynghylch gostwng y tariff a gosod mesurydd dŵr
- **Gwresogi:** helpu aelwydydd cymwys i wneud ceisiadau at gynlluniau sy'n amnewid boeleri a darparu mesurau gwresogi'r cartref
- **Gwneud y gorau o'ch incwm:** cymorth a chael eich cyfeirio at y budd-daliadau sydd ar gael a gwneud ceisiadau am ostyngiad yn nhreth y Cyngor
- **Sesiynau Ymwybyddiaeth Ynni:** Rydym yn cynnig amrywiaeth o sesiynau ar gyfer grwpiau, gan gynnwys sesiynau ynghylch deall eich biliau ynni, deall tariffau, cynghor ar sut i arbed arian a sut i gadw'ch cartref yn gynnes
- **Cofrestr Blaenoriaethu Gwasanaeth:** gall aelwydydd sy'n gymwys gofrestru am ddim gyda'u cyflenwyr nwy, trydan a dŵr
- **Mesurau Diogelu'r Cartref:** bod yn ymwybodol o garbon monocsid, larymau mwg a falfiau popty y mae modd eu cloi

Ffôn: 0800 091 1786

Gwefan: www.warmwales.org.uk/cy

Swyddog Ceredigion, Lisa Callen:

Ffôn: 07593 894449

E-bost: lisacallen@warmwales.org.uk

Atgyweiriadau i'r Cartref

Addasiadau i'r Anabl

Mae grantiau amrywiol ar gael i gefnogi bod yn annibynnol yn y cartref. Mae **Grant Cyfleusterau i'r Anabl** ar gael i addasu eiddo er mwyn diwallu anghenion penodol y person anabl sy'n byw yno.

Addasiadau megis:

- Hwyluso mynediad
- Darparu cyfleusterau addas
- Gwneud yr adeilad yn ddiogel i'w ddefnyddio
- Gwneud gwelliannau amgylcheddol er mwyn galluogi'r unigolyn anabl i fyw yn ddiogel yn eu cartref

Mae'r grant **Diogel, Cynnes a Sicr** ar gael ar gyfer addasiadau llai a chyfarpar sydd ei angen i alluogi unigolyn i fod yn annibynnol yn y cartref.

Mae gwaith cymwys yn cynnwys:

- grisiau, rampiau bach
- canllawiau cydio neu ganllawiau
- lifft bath
- tapiau lifer

Gall unrhyw un sydd wedi'i ystyried yn gymwys i'r gwasanaethau hyn gan Therapydd Galwedigaethol ymgeisio am unrhyw un o'r grantiau hyn.

Ffôn: 01545 570881

E-bost: clic@ceredigion.gov.uk

Canolfan Byw'n Annibynnol Penmorfa

Mae Canolfan Byw'n Annibynnol Penmorfa yn hyrwyddo annibyniaeth a chefnogaeth gymunedol, ac mae'n trawsnewid y ffordd mae unigolion yn canfod atebion a chael mynediad at wybodaeth i gynorthwyo eu hunain. Gallwch alw heibio'r ganolfan a gweld amrywiaeth o ddatrysiadau sy'n gysylltiedig â Gofal, Technoleg, Symudedd a Byw'n Annibynnol. Gallwch hefyd ddefnyddio'r ystafell AskSARA a fydd yn rhoi argymhellion i chi o sut i fyw'n fwy annibynnol.

Mae AskSARA ar gael ar-lein hefyd: wwcp.livingmadeeasy.org.uk

Cyfeiriad: Swyddfeydd y Cyngor Sir (llawr gwaelod) Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA

Taith rhithiol: bit.ly/4dreZMM

Oriau agor: Dydd Llun i dydd Gwener, 10am i 4pm

Cymorth Tai

Os ydych yn ddigartref neu wrth risg o fod yn ddigartref, mae Cymorth Tai yn darparu amrywiaeth o wasanaethau cymorth i drigolion Ceredigion i gynnal tenantiaeth a byw'n annibynnol yn y gymuned. Mae Cymorth Tai wedi'i gynllunio i'ch cynorthwyo i fynd i'r afael ag argyfwng a gwella eich sgiliau a'ch hyder wrth reoli eich bywyd a gwneud eich penderfyniadau eich hun. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i drigolion Ceredigion sydd dros 16 oed ac yn byw mewn unrhyw fath o lety, yn arbennig y rheiny sy'n ddigartref am unrhyw reswm neu dan fygythiad o gael eu troi allan o lety.

Gall Cymorth Tai eich cynorthwyo gyda chefnogaeth ar draws ystod eang o anghenion a phroblemau. Gallwch dderbyn cymorth yn gysylltiedig ag ystod eang o faterion sy'n ymwneud a thenantiaeth.

Ffôn: 01545 570881

E-bost: clic@ceredigion.gov.uk

Gofal yn y Cartref

Mae Galluogi yn wasanaeth cymorth ac asesu tymor byr i bobl sydd wedi bod yn sâl neu wedi'u hanafu ac sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi â thasgau o ddydd i ddydd. Nod y gwasanaeth yw eich helpu i fyw'n fwy annibynnol gartref trwy eich cefnogi i adennill hyder a sgiliau bob dydd.

Mae cymorth wedi'i deilwra i'ch anghenion, yn cael ei adolygu'n rheolaidd, ac yn lleihau wrth i chi symud ymlaen. Mae'r gwasanaeth am ddim yn ystod y cyfnod asesu. Darperir cymorth yn bennaf gan Weithwyr Galluogi, gyda Therapyddion Galwedigaethol, Gweithwyr Cymdeithasol, a Chynorthwywyr Therapi yn cymryd rhan os oes angen.

Ffôn: 01545 570881

E-bost: clic@ceredigion.gov.uk

Teleofal

Mae Teleofal yn eich cysylltu a chanolfan fonitro os bydd rhywbeth yn mynd o chwith. Yn syml, pwyswch y botwm sydd o amgylch eich gwddf neu bydd bydd yr uned ymateb yn eich cysylltu'n Uniongyrchol a'n tîm cyfeillgar. Byddan nhw'n medru siarad chi trwy'r uwchseinydd ar yr uned. Efallai bydd cyfarpar gennych hefyd i hysbysu'r tîm yn awtomatig os nad ydych chi yn medru eu hysbysu. Bydd y tîm yn gweithredu ar unwaith i'ch helpu 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Gall hyn gynnwys cysylltu ag aelod o'r teulu, gofalwr neu'r gwasanaethau brys.

Ffôn: 01545 570 881

E-bost: telecare@ceredigion.gov.uk

Gofal a Thrwsio

Mae Gofal a Thrwsio yn elusen sy'n helpu pobl hŷn yng Nghymru i aros yn ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Maent yn darparu atgyweiriadau, addasiadau bach, a chynnal a chadw cartrefi, gan roi tawelwch meddwl i berchnogion tai hŷn a thenantiaid preifat. Mae eu gwasanaethau ar gael i unrhyw un 60 oed a throsodd.

Ffôn: 01970 639920 neu 01437 766717

E-bost: helo@wwcr.co.uk

Gwefan: www.careandrepair.org.uk/cy

Nyth

Mae Nyth yn cynnig cyngor diduedd am ddim i'ch helpu i ddod o hyd i'r tariffau ynni a dŵr gorau, gwirio cymhwysedd budd-daliadau, lleihau eich ôl troed carbon, a gosod technoleg carbon isel.

Ffôn: 0808 808 2244

E-bost: advicewales@est.org.uk

Gwefan: www.llyw.cymru/cynllun-cartrefi-cynnes-nyth

Severn Wye

Cymorth am ddim, gan gynnwys:

- Cymorth dyled ynni
- Cyngor carbon monocsid
- Gwasanaethau â Blaenoriaeth
- Cyngor effeithlonrwydd ynni a biliau
- Trafod â'ch cyflenwr ynni

Ffôn: 0800 170 1600

E-bost: communityadvice@severnwyse.org.uk

Gwefan: severnwyse.org.uk/cy/cyngor-a-chymorth

Dŵr Cymru

Mae Dŵr Cymru yn cynnig Gwasanaeth Blaenoriaeth i rieni sydd â babanod, y rhai sydd â salwch sydd angen dŵr, pobl ag anawsterau golwg neu glyw neu sy'n oedrannus neu'n anabl. Maent yn medru helpu gyda chyflenwad dŵr a ffyrdd gwahanol o gael gwybodaeth. I gael cymorth gyda'ch biliau dŵr a chofrestru ar gyfer Gwasanaethau Blaenoriaeth, cysylltwch â Dŵr Cymru yn uniongyrchol drwy eu gwefan neu ffôn.

Gwefan: www.dwrcymru.com

Ffôn: 0800 052 0145

Castell Ventures

Mae Castell Ventures yn darparu gwasanaethau gofal a chymorth i oedolion sy'n byw yng Ngogledd a Gorllewin Cymru. Nid oes rhaid i chi fod yn denant iddynt i gael mynediad i'w Gwasanaeth Pobl Hŷn. Mae ar gyfer unrhyw un dros 50 oed a gall gynghori ar gyllid a budd-daliadau, addasiadau i'r cartref ac aros yn ddiogel ac yn iach.

Cysylltwch â Gymorth Porth Tai a gweld a ydych chi'n gymwys i gael cymorth gan Castell Ventures.

Ffôn: 01545 570881

E-bost: clic@ceredigion.gov.uk

Tai Wales and West

Mae Tai Wales and West yn gymdeithas tai y gellir cysylltu a hwy trwy Gofrestr Opsiyau Tai Ceredigion.

Ffôn: 0800 052 2526

E-bost: contactus@wwha.co.uk

Neges destun: 07788 310420

Taliadau Tanwydd Gaeaf

Os cawsoch eich geni cyn 22 Medi 1959 gallech gael rhwng £100 a £300 i'ch helpu i dalu'ch biliau gwresogi ar gyfer gaeaf 2025 i 2026. Gelwir hyn yn 'Daliad Tanwydd Gaeaf'. *Mae'r wybodaeth hon yn gywir ar adeg mynd i'r wasg a gall newid.* I wirio'ch cymhwysedd, gallwch ffonio'r Ganolfan Taliadau Tanwydd Gaeaf neu lenwi ffurflen ar-lein.

Ffôn: 0800 731 0160

Gwefan: www.gov.uk/taliad-tanwydd-gaeaf

I hawlio Credyd Pensiwn neu i wirio'ch cymhwyster, ffoniwch y Llinell Hawlio ar 0800 99 1234 neu ar-lein www.gov.uk/credyd-pensiwn

Taliadau Tywydd Oer

Rhoddir taliadau tywydd oer yn awtomatig i unigolyn sy'n cael budd-daliadau neu gymorth penodol ar gyfer llog morgais. Rhoddir y taliadau hyn os yw'r tymheredd cyfartalog yn eich ardal yn cael ei gofnodi fel, neu'n cael ei ragweld i fod, yn sero gradd Celsius neu'n is dros 7 diwrnod yn olynol.

Cysylltwch â'ch Canolfan Byd Gwaith leol am fwy o wybodaeth.

Ffôn: 0800 169 0190

Ffôn testun: 0800 169 0314

Aberystwyth

Canolfan Byd Gwaith
Ffordd Alexandra
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 1LA

Aberteifi

Canolfan Byd Gwaith
Adeiladau'r Goron,
Napier Gardens, Napier Street
Aberteifi
Ceredigion
SA43 1EF
15

Cyfranogiad Cymdeithasol

Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol

Mae Tîm y Gofalwyr a Chymorth Cymunedol yn gweithio gyda phobl o bob oed ac yn rhoi gwybodaeth, cyngor, cymorth, hyfforddiant a digwyddiadau. Os ydych yn Ofalwr Di-dâl, gallwch hefyd ymuno â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr sydd AM DDIM.

Ymunwch â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr i gael:

- Cylchgronau rheolaidd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr, drwy e-bost neu drwy'r post
- Bargeinion a chynigion newydd carden gofalwyr
- Gwybodaeth ddefnyddiol am wasanaethau, cymorth, y gyfraith, ac ati
- Gwybodaeth am y Fforwm Gofalwyr sy'n cyfarfod yn rheolaidd i rannu cymorth, gwybodaeth a chyfeillgarwch
- Gwybodaeth am ddigwyddiadau lleol i ofalwyr
- Gwybodaeth am gyrsiau hyfforddi perthnasol
- Hysbysiad am ymgynghoriadau ar faterion lleol a chenedlaethol

Gall gofalwyr yng Ngheredigion hefyd ymgeisio am gerdyn adnabod gofalwyr AM DDIM a derbyn amrywiaeth o fargeinion a chynigion gyda busnesau o fewn Ceredigion a chanolfannau hamdden a lles sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor.

Ffôn: 01545 574200

E-bost: clic@ceredigion.gov.uk

Facebook: [@cysylltuceredigionconnecting](https://www.facebook.com/cysylltuceredigionconnecting)

Instagram: [@cysylltu_ceredigion_connecting](https://www.instagram.com/cysylltu_ceredigion_connecting)

Gwefan: www.ceredigion.gov.uk/gofalwyr

Cais Cerdyn Gofalwyr: www.ceredigion.gov.uk/cerdyngofalwyr

Cysylltwyr Cymunedol

Mae Cysylltwyr Cymunedol yn rhan o Dîm y Gofalwyr a Chymorth Cymunedol ac mae ganddynt ystod eang o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn lleol yn eich ardal.

Gall cysylltwyr helpu gyda:

- Cheisiadau am Fathodyn Glas
- Dod o hyd i grwpiau, chyfleoedd cymdeithasol, a llawer mwy
- Cysylltu â darparwyr gwasanaethau

I gysylltu â'ch Cysylltydd Cymunedol lleol gallwch ffonio, e-bostio neu ymweld â'r dudalen Facebook.

Ffôn: 01545 574200

E-bost: clic@ceredigion.gov.uk

Facebook: @cysylltuceredigionconnecting

Gwefan: <https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/lles-a-gofal/cymorth-i-oedolion/cysylltwyr-cymunedol/>

Dewis Cymru

Dewis Cymru yw'r lle i fynd os ydych chi eisiau gwybodaeth neu gyngor am eich lles – neu eisiau gwybod sut gallwch chi helpu rhywun arall. Gwefan yw Dewis sy'n storio gwybodaeth am wasanaethau lleol, iechyd a lles a llawer mwy.

Gwefan: www.dewis.cymru

E-bost: help@dewis.wales

Mannau Cynnes

Mae gan Geredigion Fannau Croeso Cynnes ar draws y sir sy'n agored i bawb am ddim neu gellir rhoi rodd bach.

Map ar-lein: www.ceredigion.gov.uk

Ffôn: 01545 570881

Cymorth Gyda Bwyd

Mae Grwpiau Bwyd Dros Dro i bawb rannu bwyd dros ben a lleihau gwastraff bwyd. **Gwiriwch yr oriau agor cyn mynychu.**

Aberystwyth

Porthi Aber

Hwb Porthi Aber Hub
5 Great Darkgate Street
Aberystwyth
SY23 1DE

Email:

afscommunityhub@gmail.com

Website:

www.porthiaber.co.uk

Sant Paul

Canolfan Fethodistaidd
Sant Paul
Morfa Mawr
Aberystwyth
SY23 2NN

Phone:

01970 626703

Email:

ceredigioncircuitpa@outlook.com

Y Ffynnon

Ystafelloedd y Castell
Stryd y Ro
Aberystwyth
SY23 1DZ

E-bost:

liz@stmikes.net

Llanbedr Pont Steffan

Prosiect Bwyd Cymunedol

Neuadd Fictoria
Heol y Bryn
Llanbedr Pont Steffan
SA48 7EE

E-bost:

food.project.lampeter@gmail.com

Aberporth

Oergell Gymunedol Aberporth

Canolfan Dyffryn
Aberporth
Aberteifi
SA43 2EU

Phone:

07368327654

Email:

avhprojectofficer@gmail.com
avhcommunityfridge@gmail.com

Mae yna fanciau bwyd hefyd sy'n croesawu rhoddion yn ogystal â chynnig cefnogaeth. **Gwiriwch yr oriau agor cyn mynychu.**

Banc Bwyd Aberteifi

New Life Church
Mwldan Isaf
Aberteifi
SA43 1HR

Ffôn: 07949 127307

E-bost:

info@cardigan.foodbank.org.uk

Gwefan: www.cardigan.foodbank.org.uk

Banc Bwyd Llandysul

Capel Seion
Llandysul
SA44 4BY

Ffôn:

01559 363874

E-bost:

bancbwydllandysul@gmail.com

Banc Bwyd Llambod

Creuddyn
5 Llawr Gwaelod Uchaf
Heol Pontfaen
Llambod
SA48 7BN

Ffôn:

07582 905743

E-bost:

lampeterfoodbank@gmail.com

Banc Bwyd Aberaeron

Capel Peniel,
Stryd y Dŵr
Aberaeron
SA46 0DG

Ffôn:

Dafydd Tudor - 07765 737108

Ebost:

bancbwydaberaeron@gmail.com

**Banc Bwyd Eglwys
Aberaeron 5k+**

Neuadd Eglwys y
Drindod Sanctaidd
Heol y Bont
Aberaeron
SA46 0AX

Ffôn:

Canon John Lewis - 01545 570 433

E-bost:

vicar@aberaeronparish.org.uk

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio telerau ac amodau pob sefydliad gan fod rhai yn gofyn am atgyfeiriadau neu dalebau. I wybod mwy, gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar-lein ar **www.ceredigion.gov.uk** neu drwy gysylltu â'ch **Cysylltydd Cymunedol** lleol. Byddant hefyd yn ymwybodol o sefydliadau a redir gan y gymuned yn eich ardal a ellir fod o gymorth.

Ffôn: 01545 574 200

E-bost: clic@ceredigion.gov.uk

Gofalwyr Ceredigion Carers (Credu)

Mae Gofalwyr Ceredigion Carers yn cefnogi Gofalwyr di-dâl o bob oed yng Ngheredigion. Maent yno i gynnig gwybodaeth, cefnogaeth unigol neu i'ch cysylltu gydag eraill.

Ffôn: 03330 143377

E-bost: ceredigion@credu.cymru

Gwefan: www.gofalwyrkeredigioncarers.cymru

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion

Mae CAVO yn darparu cyfleoedd gwirfoddol yng Ngheredigion i'ch cadw'n weithredol yn gymdeithasol a chyfrannu'n gadarnhaol i'ch cymuned.

Gwefan: www.cavo.org.uk/cy/

Ffôn: 01570 423232

E-bost: gen@cavo.org.uk

RAY Ceredigion

Mae RAY Ceredigion yn darparu gweithgareddau sy'n cefnogi iechyd meddwl a lle pobol o bob oed a gallu ar draws ardal Aberaeron, gan roi'r ffocws pennaf ar y rheiny sy'n agored i niwed neu dan anfantais. Daw'r holl weithgareddau yn dilyn ymgynghoriad llawr gwlad ac maent yn ymateb i anghenion pobl leol ac yn roi ffocws ar yr unigolyn a'r rheiny sy'n defnyddio'r adnodd.

Cyfeiriad: Pengloyn, Tabernacle Street, Aberaeron, SA46 0BN

Gwefan: www.rayceredigion.org.uk/cy/

Ffôn: 01545 570686

E-bost: enquiries@rayceredigion.org.uk

Hynt

Mae Hynt yn gynllun mynediad cenedlaethol newydd sy'n gweithio gyda theatrau a chanolfannau celfyddydau yng Nghymru i wneud yn siŵr bod cynnig cyson ar gael i ymwelwyr ag amhariad neu angen penodol o ran mynediad, a'u Gofalwyr neu Gynorthwywyr Personol.

Gwefan: www.hynt.co.uk/cy/

E-bost: info@hynt.co.uk

Ffederasiwn Ceredigion Sefydliad y Merched

Nod Sefydliad y Merched yw creu byd lle mae menywod yn dod at ei gilydd i ddysgu, rhannu sgiliau a chydweithio i ddod yn ddinasyddion gweithredol, gan ddylanwadu ar newid i wella bywydau yn eu cymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang. Mae Ffederasiwn Ceredigion yn cynnig y cyfle i drafod materion cyhoeddus, dysgu sgiliau newydd, crefftau, chwaraeon ac ymuno â chôr. Mae gan Ffederasiwn Ceredigion Sefydliad y Merched rhithiol sy'n cynnwys holl fuddion Sefydliad y Merched mewn person.

Ffôn: 01970 612831

E-bost: ceredigion.wi@gmail.com

Merched y Wawr

Mae Merched y Wawr yn sefydliad gwirfoddol, heb fod yn wleidyddol, i fenywod yng Nghymru i gymdeithasu a gwneud pethau cadarnhaol trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Ffôn: 01970 611661

E-bost: swyddfa@merchedywawr.cymru

Gwefan: www.merchedywawr.cymru

Trefoil Guild Ceredigion

Mae Trefoil Guild Ceredigion ar agor i bawb 18 oed a throsodd. Mae'n canolbwyntio ar gyfeillgarwch, ymwneud â'r gymuned, a gweithgareddau personol. Mae'n rhan o deulu ehangach y Girlguiding.

Email: ceredigiontrrefoil@gmail.com

Website: www.trefoilguild.co.uk/county/ceredigion

HAHAV

Mae HAHAV yn elusen a arweinir gan wirfoddolwyr sy'n rhoi cymorth am ddim i bobl ledled Ceredigion sy'n byw gyda salwch heb wella arno neu sy'n profi cyfyngiad ar fywyd. Maen nhw hefyd yn cynnig cymorth profedigaeth. Cysylltwch â Hahav i gael gwybod am weithgareddau i'r rhai sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr.

Ffôn: 01970 611550

E-bost: admin@hahav.org.uk

Arts4Wellbeing

Mae Arts4Wellbeing yn defnyddio creadigrwydd i gefnogi iechyd meddwl, lles, a chysylltiad cymdeithasol i bobl dros 50 oed. Maent yn cynnal gweithgareddau creadigol, yn adeiladu rhwydweithiau cymorth lleol, ac yn darparu cyfeirio a phresgripsiynu cymdeithasol i leihau unigedd a hyrwyddo heneiddio iach.

Website: www.arts4wellbeing.co.uk

Phone: 07496 879820

Email: Sara@Arts4Wellbeing.co.uk or Mike@Arts4Wellbeing.co.uk

Men2Men

Mae Men2Men yn canolbwyntio ar gynyddu adnoddau i ddynion gysylltu â dynion eraill, yn enwedig pan fyddant yn ynysig neu'n cael trafferth yn feddyliol ac yn ysbrydol. Maent yn awyddus i greu deialog rhwng dynion a'u cymuned am y problemau niferus y mae dynion yn eu hwynebu heddiw.

Gwefan: www.men2men.org.uk

Ffôn: 07776730690

E-bost: info@men2men.org.uk

Sied i'r Dynion (Men's Shed)

Mae Men's Sheds yn ganolfannau cymorth a lles i ddynion, a allai fod yn ei chael hi'n anodd siarad am iechyd meddwl ac unigrwydd. Maent yn cynnal nifer o weithgareddau gwahanol, o siopau peiriannau i randiroedd cymunedol.

Gwefan: www.menssheds.cymru.co.uk

Ffôn: 0300 772 9626

E-bost: admin@ukmsa.org.uk

Aberteifi- Sied y Cardi

Cyfeiriad: Old Timber Yard, Rhes y Frenhines, Aberteifi, SA43 1BY

Cydlynnydd Prosiect: Matt Hatter - 07910 517514

Gwefan: www.cardished.cymru

E-bost: info@cardished.cymru

Aberaeron - Sied Dynion RAY Ceredigion

Cyfeiriad: Clos Pencarreg, Aberaeron, SA46 0DX

Ffôn: 07359 274561

Gwefan: www.rayceredigion.org.uk

E-bost: msaberaeron@gmail.com

Borth - Sied Dynion Hwb Borth

Cyfeiriad: Heol Clarach, Borth SY23 5LW

Cydlynnydd y Sied: Pete Kingston

Ffôn: 07932 135287

E-bost: pete@borthcommunityhub.co.uk neu contact@borthcommunityhub.co.uk

Llandysul - Sied Dynion Yr Ardd

Cyfeiriad: Morris Terrace, Pont-Tyweli, Llandysul, SA44 4RJ

E-bost: yrardd@gmail.com

Facebook: @yrardd1

Instagram: @yrardd_llandysul

Hybiau Cymunedol

Neuadd Bentref Aberporth

Mae Neuadd Bentref Aberporth yn adeilad newydd sy'n ganolfan gymunedol ac yn cynnig ystod o weithgareddau a digwyddiadau gan gynnwys bore coffi a chinio cymunedol yn wythnosol. Mae adeilad llai, Canolfan Dyffryn, yn gartref i oergell cymunedol, rac dillad wedi'i ailgylchu a gardd gymunedol.

Mae'r neuadd yn falch o groesawu gwirfoddolwyr newydd bob amser.

Ffôn: 07930 995314

Cyfeiriad: Neuadd Bentref Aberporth, Aberporth, SA43 2EN

Gwefan: www.aberporthvillagehall.co.uk

Canolfan Gymunedol Pennant

Mae'r ganolfan yn darparu ystod eang o weithgareddau ar gyfer pobl o bob oed gan gynnwys boreau coffi, Gofod Groeso, grŵp i fenywod a chaffi TG. Mae ganddynt hefyd gysylltiadau i wasanaethau lleol a Chlwb Olew.

Ffôn: 07967 116632

E-bost: cympencom@gmail.com

Cyfeiriad: Canolfan Gymunedol Pennant, Pennant, Llanon, Ceredigion, SY23 5PA

Gwefan: www.cymunedpennantcommunity.org.uk

Hwb Cymunedol Borth

Mae'r hwb yn darparu ystod eang o weithgareddau a grwpiau i bobl o bob oed gan gynnwys Caffi Cymunedol, grwpiau cerdded, Sied i'r Dynion, grŵp dementia a grŵp creadigol ar gyfer pobl hŷn.

Ffôn: 07896 616857

E-bost: contact@borthfamilycentre.co.uk

Cyfeiriad: Hwb Cymunedol Borth, Heol Clarach, Borth, Ceredigion, SY24 5LW

Gwefan: www.borthcommunityhub.co.uk

Fforwm Cymuned Penparcau

Mae'r hwb yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau i bobl hŷn, gan gynnwys brecwast i gyn-filwyr, grŵp i bobl hŷn, a boreau coffi Cymreig. Maent hefyd yn cynnal digwyddiadau tymhorol, mae ganddynt gaffi ar y safle, a llyfrgell fach.

Ffôn: 01970 611099

Ebost: contact@penparcau.cymru

Cyfeiriad: Y Parc, Ffordd Penparcau, Penparcau, Aberystwyth, SY23 1RU

Gwefan: www.penparcau.cymru

Mae nifer o grwpiau a hybiau eraill ar gael ar draws Ceredigion sy'n darparu ystod eang o weithgareddau a chefnogaeth. Cysylltwch â Chysylltydd Cymunedol i ganfod beth sydd ar gael yn lleol i chi.

Parch a Chynhwysiant Cymdeithasol

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn cymryd camau i amddiffyn hawliau pobl hŷn, rhoi diwedd ar wahaniaethu ar sail oedran, rhoi diwedd ar gam-drin pobl hŷn a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn cefnogi pobl hŷn yn uniongyrchol ledled Cymru drwy'r Tîm Cyngor a Chymorth, ac yn clywed gan bobl hŷn yn rheolaidd mewn digwyddiadau ymgysylltu a gwrando. Mae gan y Comisiynydd Pobl Hŷn nifer o gyhoeddiadau defnyddiol a chyfeiriadur o wasanaethau a chymorth lleol sydd ar gael am ddim.

Ffôn: 03442 640 670

E-bost: gofyn@poblhyn.cymru

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Age Cymru Dyfed

